# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

**(Via Microsoft Teams)**

| | |
|---|---|
| **<u>Aelodau sy’n Bresennol:</u>** | **<u>Dydd Mercher, 15 Chwefror 2023</u>** |
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, O.S.Davies, W.Carpenter, A.J.Richards, P.D.Richards, P.Rogers a/ac M.Spooner |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | D.Mulligan, A.O'Donnell a/ac S.McCluskie |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2023 fel cofnod cywir.

4. **HUNAN-ASESIAD DRAFFT**

   Darparwyd trosolwg a chrynodeb o'r hunanasesiad i aelodau'r pwyllgor.
   Cyfeiriodd swyddogion at feysydd penodol o'r asesiad gan ddarparu esboniad i aelodau o ran sut casglwyd yr wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau. Hysbyswyd yr aelodau fod yr asesiad wedi'i ddylunio ar lefel Gorfforaethol gyda thri chwestiwn canolog yn cael eu hystyried.

   Lluniwyd tystiolaeth o'r defnydd o dystiolaeth fewnol, adroddiadau rheoleiddio ac adborth cyfansoddiadol o fewn blwyddyn ariannol 21/22.

Mae gwybodaeth o fewn yr asesiad hefyd yn berthnasol i Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol yr awdurdod ar gyfer 2021/22. Hysbyswyd yr aelodau hefyd am yr wyth gweithgaredd craidd a aseswyd yn erbyn pecyn cymorth CLlLC, y datblygwyd pob un ohonynt gan Benaethiaid Gwasanaeth.
Amlinellodd swyddogion y camau gweithredu a restrwyd, fodd bynnag, nodwyd i'r aelodau nad oedd y camau gweithredu wedi'u creu'n ddiweddar a gellid dod o hyd iddynt gyda'r Cynllun Datganiad Llywodraethu Blynyddol 21/22 a Chynllun Corfforaethol presennol y cyngor.

Roedd aelodau'n awyddus i dynnu sylw at nifer o wallau teipograffyddol o fewn yr adroddiad ac argymhellwyd y canlynol.

T.12 'Beth allwn ni ei wneud yn well a sut' i'w adolygu a'i gadarnhau.
T.21 Dylai Llywodraeth ddweud Llywodraethu
T.42 Nodi 'o'r' rhwng ‘ystyriol' ac 'asesiad'.
T.52 Nodi 'it' rhwng 'is'.
T. 44, 48 yn y pecyn adroddiadau (tudalen 30 yr asesiad) - caiff y dyddiad ei gadarnhau fel naill ai mis Mawrth 2024 neu fis Mawrth 2023.
T. 49 Gwall teipograffyddol, sef MaR

Holodd yr aelodau a gynhaliwyd archwiliad diweddar o’r Fframwaith Rheoli Risgiau. Dywedodd swyddogion na gynhaliwyd archwiliad mewnol yn ddiweddar. Fodd bynnag, yn unol â'r polisi a'r fframwaith newydd arfaethedig, gwnaed darpariaethau yn y cynllun archwilio ar gyfer y flwyddyn nesaf i gynnal archwiliad o gydymffurfiaeth â'r polisi a'r weithdrefn newydd, a chaiff y canlyniadau eu hadrodd mewn cyfarfod o’r pwyllgor yn y dyfodol.

Gofynnodd yr aelodau am gopi o'r Gofrestr Risgiau ddiweddaraf a dywedwyd wrthynt fod yr adroddiad wedi’i drefnu ar gyfer cyfarfod Bwrdd y Cabinet ar 22 Chwefror, ac ar ôl iddo gael ei brosesu byddai copïau'n cael eu hanfon ymlaen.

Darparodd yr aelodau adborth cadarnhaol ar yr asesiad yn ei gyfanrwydd a diolchwyd i’r swyddogion.

**Penderfyniad:** Cytunodd y pwyllgor i gefnogi'r asesiad a chaiff ei gyflwyno i Fwrdd y Cabinet am benderfyniad yn ystod cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 22 Chwefror 2023.

5. **ADOLYGIAD LLYWODRAETHU ALLANOL ANNIBYNNOL - ADRODDIAD DIWEDDARU**

Darparwyd trosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd i aelodau'r Pwyllgor.
Rhoddwyd y diweddaraf i aelodau am y cynllun gweithredu fel a argymhellwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol. Roedd y swyddogion yn gallu egluro bod yr holl gamau gweithredu y cytunwyd arnynt wedi'u rhoi ar waith, a pha rai fyddai'n cael eu defnyddio mewn unrhyw sefyllfaoedd llywodraethu yn y dyfodol.

**Penderfyniad:** Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

6. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

7. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol ag Adran 100A(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 12, 13 ac 14 o Ran 4 Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

**Adroddiad Preifat gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol.**

8. **ATODIAD 1 – ADRODDIAD DIWEDDARU ADOLYGIAD LLYWODRAETHU ALLANOL ANNIBYNNOL**

Dosbarthwyd Atodiad 1 fel eitem breifat er mwyn ychwanegu at a chefnogi eitem rhif 5 ar yr agenda - Adolygiad Llywodraethu Allanol Annibynnol - adroddiad diweddaru.
Rhoddodd swyddogion drosolwg byr o'r ddogfen.

**Penderfynwyd:** Nodi atodiad 1, ar y cyd ag eitem rhif 5 ar yr agenda er gwybodaeth.

**CADEIRYDD**